[redacted]

Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trwy e-bost: SeneddESS@cynulliad.cymru

23 Ionawr 2020

Annwyl gyfeillion

Ymateb y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i Adolygiad Gradd-brentisiaethau
Mae'n dda gennym gyflwyno sylwadau i'r ymgynghoriad ar radd-brentisiaethau ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg).

Mae'r Coleg yn arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Mae'r Coleg yn cyflawni hyn drwy weithio yn effeithiol mewn partneriaeth gyda phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg gynhwysol o'r radd flaenaf.

Mae'r Coleg wedi croesawu y polisi o greu Comisiwn Trydyddol ar gyfer Cymru a fyddai'n sicrhau mwy o gydlyniant rhwng darpariaeth Addysg Uwch, Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Gall Gradd-brentisiaethau fod yn rhan amlwg o'r datblygiad hwn wrth dynnu gwahanol sectorau at ei gilydd i gynnig profiad gradd effeithiol yn y gweithle. Mae'r cynllun sydd wedi rhedeg ers 2018/19 felly i'w croesawu ond mae sawl cwestiwn i'w hystyried wrth ddatblygu'r cynllun ymhellach.

O safbwynt y Coleg un o'r heriau amlwg gyda'r cynllun ar hyn o bryd yw'r diffyg o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er bod y Cyngor Cyllido Addysg Uwch (HEFCW) wedi holi am gynlluniau darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth ystyried ceisiadau gan ddarparwyr i gynnig Gradd-brentisiaethau mae'r cyflawniad wedi bod yn siomedig (os nad hyd yn oed yn siomedig iawn). Os yw'r cynlluniau yn mynd i ehangu a datblygu yn y dyfodol mae angen agwedd llawer mwy rhagweithiol tuag at gynllunio darpariaeth Cymraeg a chynnwys dwyieithog i'r radd-brentisiaeth o'r cychwyn cyntaf. Mae enghreifftiau diweddar o ddatblygiad cymwysterau lefel 3 newydd ym maes lechyd a Gofal ble mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi eu prif-ffrydio fel rhan o'r cynlluniau o'r cychwyn cyntaf.

Mae cwestiynau hefyd o ran cynaliadwyedd Gradd-brentisiaethau. Fel sy'n wybyddus, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn talu ffioedd cyflawn y myfyrwyr hynny sy'n cofrestru ar Radd-brentisiaethau. Mae hyn yn ymddangos ar un llaw yn anghyson gydag Adroddiad Diamond sydd wedi gosod fframwaith ar gyfer ffioedd Addysg Uwch, ac ar y llaw arall yn fwy hael na'r gefnogaeth i brentisiaethau a ddarperir drwy'r fframwaith prentisiaethau fel

arall - o ran cefnogaeth i'r prentis a/neu'r darparwr. Mae angen diffinio'n glir felly beth yw'r gwahaniaethau rhwng llwybrau gwahanol at gymwysterau lefel uwch a'u cyllido'n briodol boed hynny'n Gradd-brentisiaethau, Graddau Rhan Amser tra bo'r myfyriwr yn gweithio neu brentisiaethau uwch (lefel 4 a 5).

I grynhoi felly mae cwestiynau pwysig strategol i'w hateb wrth ystyried a ddylid ehangu'r rhaglen Gradd-brentisiaethau ac mae cwestiynau amlwg i'w hystyried er mwyn sicrhau fod y Gymraeg a dwyieithrwydd yn cael eu hystyried yn llawn yn y cynlluniau hyn yn y dyfodol.

Yn gywir iawn

Ioan Matthews

Dr Ioan Matthews
Prif Weithredwr